# CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y CANOLBARTH

**Teitl yr Adroddiad:** **Diwygio'r Cyfansoddiad**

**Dyddiad y Cyfarfod: 31 Gorffennaf 2023**

| | |
|---|---|
| **Diben yr Adroddiad** | Diwygio adran 6 o'r Cyfansoddiad i ddarparu ar gyfer penodi Dirprwy Brif Weithredwr |
| **Awdur yr Adroddiad** | Clive Pinney, Swyddog Monitro |
| **Swyddog Cyllid** | Duncan Hall, Swyddog Adran |
| **Swyddog Cyfreithiol** | Clive Pinney, Swyddog Monitro |

## 1. Cefndir

1.1 Cymeradwywyd y Cyfansoddiad gan CCC ar 4 Gorffennaf 2022, ac mae adran 6 yn darparu ar gyfer penodi Prif Swyddog Gweithredol ("PSG") ond nid yw'n darparu ar gyfer penodi Dirprwy Brif Swyddog Gweithredol.

1.2 Mae'n ofynnol yn ôl rheolau 6.2 a 2.3 y Cyfansoddiad fod PSG yn cael ei benodi yn y Cyfarfod Blynyddol bob blwyddyn gyda'r rolau rhwng Prif Weithredwyr Ceredigion a Phowys am yn ail ar sail flynyddol.

1.3 Cafodd Prif Weithredwr Cyngor Sir Powys ei benodi fel PSG ar gyfer CCC yn ei Gyfarfod Blynyddol ar 4 Gorffennaf 2022. Gwaetha'r modd, mae'r PSG wedi bod ar absenoldeb salwch hir dymor ers mis Chwefror 2023 ac yn absenoldeb Dirprwy PSG, gwnaeth y CCC benderfyniad ffurfiol i benodi PSG Ceredigion fel PSG y CCC ar 18 Mai 2023.

## 2. Cynnwys

2.1 Gan mai dim ond ei benodi fel PSG y CCC ar 18 Mai 2023 y cafodd Prif Weithredwr Ceredigion, caiff ei argymell fod y penodiad hwn yn parhau tan y Cyfarfod Blynyddol yn 2024.

2.2 Er mwyn osgoi'r posibilrwydd na fyddai'r PSG ar gael yn y dyfodol am ba bynnag reswm, caiff ei argymell fod y CCC hefyd yn penodi Dirprwy PSG a fyddai'n gallu dirprwyo pan fo'n ofynnol. Er mwyn cyflawni hyn, caiff ei argymell fod adran 6.2 y Cyfansoddiad yn cael ei diwygio fel a ganlyn:-

**"DYLETSWYDD I BENODI PRIF SWYDDOG GWEITHREDOL**

**6.2.1** Bydd y CCC yn penodi Prif Swyddog Gweithredol a Dirprwy Brif Swyddog Gweithredol am gyfryw gyfnod ag y mae'n ystyried i fod yn briodol o Brif Swyddogion Gweithredol Cyngor Sir Powys a Chyngor Sir Ceredigion; ac yn unol â Rheol 2.3 y Cyfansoddiad, bydd y rolau yn cylchdroi'n flynyddol.

**6.2.2** Bydd y Dirprwy Brif Swyddog Gweithredol yn dirprwyo'n awtomatig ar ran y Prif Swyddog Gweithredol pryd bynnag y bydd y Prif Swyddog Gweithredol yn gofyn iddo wneud hynny neu pan fydd y Prif Swyddog Gweithredol yn absennol am unrhyw reswm."

**3. Asesiad Effaith Integredig:**

3.1 Nid yw'n ofynnol cael Asesiad Effaith Integredig.

## 4. Effaith ar y Gweithlu:

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ar y gweithlu.

## 5. Effaith Cyfreithiol:

5.1 Caiff yr argymhellion eu cefnogi o safbwynt cyfreithiol.

## 6. Effaith Ariannol

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol.

## 7. Ymgynghoriad:

6.1 Nid oes unrhyw ofyniad am ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r adroddiad hwn.

## 9. Rhesymau dros y Penderfyniad Arfaethedig:

9.1 Cydymffurfio â Rheolau 6.2 a 2.3 y Cyfansoddiad a sicrhau parhad swyddogaeth y PSG yn y dyfodol.

## 10. Argymhellion

**10.1 Mynd ati i benodi Prif Weithredwr Ceredigion fel PSG y CCC tan y Cyfarfod Blynyddol nesaf ym mis Gorffennaf 2024.**

**10.2 Penodi Prif Weithredwr Powys fel Dirprwy Brif Weithredwr y CCC nes y Cyfarfod Blynyddol nesaf ym mis Gorffennaf 2024.**

**10.3 Diwygio adran 6.2 y Cyfansoddiad ar unwaith yn ôl yr hyn a osodwyd ym mharagraff 2.2 yr adroddiad.**